Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Arolwg Trigolion – Adroddiad Cyhoeddus

Rhagfyr 2024

# Arolwg Trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2024 - Eich Barn

## Ar Gipolwg

3,038 o ymatebion – y nifer uchaf erioed o ymatebion i ymgynghoriad cyngor ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Byddai 57.9% yn argymell Pen-y-bont ar Ogwr fel lle i fyw

Mae 50.1% yn fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw (35.7% yn anfodlon)

Mae 75.1% yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd

Cwblhaodd 99.5% yr arolwg yn Saesneg; 0.5% yn Gymraeg

## Ynglŷn â'n Harolwg

Dyma oedd Arolwg Trigolion cyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a gynhaliwyd gyda chefnogaeth Data Cymru a Rhaglen Gwella CLILC. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024, gan roi cyfle i drigolion rannu eu barn ar Ben-y-bont ar Ogwr fel lle i fyw ac ar wasanaethau cyngor lleol.

Sut Cyrhaeddon ni Bobl: Roedd yr arolwg ar gael ar-lein trwy wefan y cyngor, ac roedd copïau caled ar gael mewn llyfrgelloedd, canolfannau bywyd ac ar gais. Darparwyd fersiwn hawdd ei deall hefyd. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy'r Panel Dinasyddion, Bwletin Trigolion, Bwletin Staff, Cynghorau Tref a Chymuned, cyfryngau cymdeithasol, a’r cyfryngau lleol.

# Prif Ganfyddiadau

## Eich Ardal Leol a'ch Cymuned

- Mae 61.1% yn cytuno bod pobl yn eu hardal leol yn cyd-dynnu'n dda ac yn helpu ei gilydd
- Mae 50.3% yn teimlo'n rhan o'u hardal leol (roedd 27.8% yn niwtral neu wedi ateb 'ddim yn gwybod')
- Mae 42.8% yn cytuno bod pobl yn tynnu at ei gilydd i wella'r ardal leol (roedd 28.9% yn niwtral neu wedi ateb 'ddim yn gwybod')
- Mae 53.2% yn dweud bod ansawdd aer yn dda (roedd 28.7% yn niwtral neu wedi ateb 'ddim yn gwybod')
- Mae 61.9% yn dweud bod digon o fannau gwyrdd yn eu hardal leol
- Mae 75.1% yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd a 46.5% yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu

**WYDDOCH CHI?**

- Mae gwaith gwella wedi'i gwblhau ar Stryd y Parc i ddod â'r ansawdd aer i lefel sy'n cydymffurfio â thargedau cenedlaethol erbyn 2026
- Mae grantiau wedi'u rhoi i fusnesau lleol i helpu i adfer canol trefi drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) y DU
- Mae naw safle wedi derbyn Gwobr y Faner Werdd Cadwch Gymru'n Daclus eleni i gydnabod eu cyfleusterau rhagorol i ymwelwyr, eu safonau amgylcheddol uchel, a'u mannau gwyrdd o ansawdd uchel
- Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gartref i Barth Crimestoppers cyntaf Cymru yn Y Felin-wyllt  i annog trigolion i ddefnyddio gwasanaeth unigryw adrodd troseddau yr elusen

## Eich Cyngor lleol

Roedd pobl yn gyffredinol yn eithaf cadarnhaol am eu rhyngweithiadau â'r cyngor. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod rhyngweithiadau allweddol â'r cyngor yn hawdd -

- Mae 94.6% yn credu ei bod hi’n hawdd talu'r dreth gyngor
- Mae 62% yn credu ei bod hi'n hawdd archebu biniau neu ofyn am finiau newydd
- Mae 73.8% yn credu ei bod hi’n hawdd gwneud cais am leoedd ysgol

Ar draws yr holl awdurdodau sy'n defnyddio'r arolwg trigolion cenedlaethol hwn, nid yw atebion i gwestiynau am foddhad neu anfodlonrwydd â gwasanaethau penodol y cyngor yn gadarnhaol iawn. Yn gyffredinol, defnyddiodd llawer o ymatebwyr y categori niwtral neu 'ddim yn gwybod' i'r cwestiynau hyn. Am y rheswm hwn, rydym yn amlinellu lefel yr **anfodlonrwydd** ar bob gwasanaeth y cyngor isod -

- Gwasanaethau Addysg: 27.7% yn anfodlon
- Gwasanaethau Cymdeithasol: 32.8% yn anfodlon
- Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth: 33.8% yn anfodlon
- Gwasanaethau Tai: 35% yn anfodlon
- Cynllunio a Rheoli Adeiladu: 43.8% yn anfodlon
- Rheoli Gwastraff: 45.8% yn anfodlon

## WYDDOCH CHI?

- Mae ein Strategaeth Cartrefi Gwag yn dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd
- Rydym yn darparu mwy o dai fforddiadwy fel rhan o ddatblygiadau newydd ym Mhorthcawl (Sandy Bay a Salt Lake), Maesteg (hen safle Revlon), tref Pen-y-bont ar Ogwr (Sunnyside), Tondu a Pharc Llangewydd
- Mae'r cyngor a'i bartneriaid yn Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi cyflawni prosiect ailddatblygu gwerth miliynau o bunnoedd yn Neuadd y Dref Maesteg
- Mae Pafiliwn y Grand, Porthcawl yn cael ei ailddatblygu, gan warchod treftadaeth unigryw'r adeilad ac ehangu'r arlwy celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth
- Ni yw'r awdurdod lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru ar gyfer ailgylchu, gyda chyfradd ailgylchu o 73%
- Canfu Care in Wales fod y cyngor wedi gwneud 'gwelliannau parhaus ac amserol' yn ei Wasanaethau Cymdeithasol Plant
- Bydd ysgolion cynradd Corneli ac Afon Y Felin yn cael eu disodli'n fuan gan ysgol gynradd cyfrwng Saesneg fodern newydd sbon sy'n cynnwys system dau ddosbarth mynediad ar gyfer bron i 500 o ddisgyblion, meithrinfa â 60 o leoedd, canolfan adnoddau â 15 lle ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, maes chwarae, ardal chwaraeon aml-ddefnydd a mwy
- Bydd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg Ysgol y Ferch o'r Sgêr yn ehangu i fod yn ysgol dau ddosbarth mynediad, gyda lle i 420 o ddisgyblion, meithrinfa cyfrwng Cymraeg ar gyfer 60 o ddisgyblion a chyfleusterau fel maes chwarae ac ardal chwaraeon aml-ddefnydd

# Sut mae Pen-y-bont yn Cymharu

O'u cymharu â chynghorau eraill Cymru a gymerodd ran yn yr un arolwg, mae canlyniadau Pen-y-bont ar Ogwr yn debyg i raddau helaeth. Mae lefelau boddhad, ymddiriedaeth a chanfyddiadau o ddiogelwch o fewn yr ystodau a adroddir mewn awdurdodau lleol eraill, sy'n awgrymu bod yr heriau hyn yn gyffredin ledled Cymru, nid yn unigryw i Ben-y-bont ar Ogwr.

## Sut Rydyn ni'n Mynd i'r Afael â Hyn

Yn seiliedig ar eich adborth, rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion gwella ar:

**Ddeall y canlyniadau**

Roedd yr arolwg hwn yn agored i bawb, ac roedd yr ymatebion yn hunan-ddewisol felly mae'r canlyniadau'n dangos beth mae trigolion a ddewisodd gymryd rhan yn ei feddwl. Serch hynny, mae'r arolwg yn rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i ni i'r hyn sydd fwyaf pwysig, yr ydym wedi'u gwneud ein llinell sylfaen - byddwn yn olrhain gwelliannau dros amser.

**Beth fydd yn digwydd nesaf**

Mae eich adborth eisoes yn llywio:

- Gwelliannau mewn gwasanaethau lle mae lefelau boddhad yn is
- Gwaith gyda phartneriaid i wella gwasanaethau
- Gwell cyfathrebu am ein perfformiad

Yn y Flwyddyn Newydd, byddwn yn ymgynghori ar ein cynllun trawsnewid ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr 2040.

## *Diolch!*

Diolch i'r 3,038 o drigolion a gymerodd ran. Mae eich adborth yn hanfodol i'n helpu i adeiladu Pen-y-bont ar Ogwr cryfach, mwy diogel a mwy cysylltiedig.

Mae hyn yn fwy na dim ond casglu eich barn - mae'n ymwneud â gweithredu arni ac adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio'n dda.

**Cysylltu â Ni:**

Oes gennych chi gwestiynau am yr arolwg hwn neu eisiau cymryd rhan yn fwy?

Ffon: 01656 643643
E-bost: consultation@bridgend.gov.uk
Gwefan: www.penybontarogwr.gov.uk

**Dilynwch ni:**

- Facebook: @BridgendCBC
- Twitter/X: @BridgendCBC

Cofrestrwch ar gyfer ein bwletin preswylwyr: www.bridgend.gov.uk/residents-bulletin

**Diogelu Data a Chyfrinachedd**

Rydym yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu diogelu gwybodaeth bersonol, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU. Mae'r wybodaeth bersonol a ddarparwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn gwbl gyfrinachol ac fe'i rhannwyd gyda Data Cymru at ddibenion yr arolwg hwn yn unig.